**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/90/26

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru

SeneddTai@senedd.cymru

19 Chwefror 2026

Annwyl John

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol (IMG) ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod yr IMG ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2026.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithwir gan Weinidog Cymunedau Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Gordon Lyons ACD. Hefyd yn bresennol roedd y Gwir Anrhydeddus Steve Reed AS, Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a Màiri McAllan ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Dai.

Roedd agenda'r cyfarfod yn canolbwyntio ar bynciau sy'n ymwneud â datblygu a chyflawni strategaethau tai, gan gyfeirio at gynyddu'r cyflenwad ar draws pob deiliadaeth ac adeiladu cymunedau a lleoedd ffyniannus, cynaliadwy.

Trafododd y grŵp yr arferion gorau ar gyfer polisïau tai sy'n seiliedig ar le, yn ogystal â heriau ac atebion i gynyddu'r cyflenwad tai ledled y DU. Cytunodd y grŵp fod cynyddu'r cyflenwad tai ar draws pob deiliadaeth yn hanfodol i adeiladu cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Cytunodd pob llywodraeth i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cartrefi i bawb ledled y DU, gyda Gweinidogion yn nodi manteision y berthynas weithio gadarnhaol sydd eisoes yn bodoli rhwng swyddogion ac yn cytuno i'r cydweithredu hwn rhwng swyddogion barhau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Manteisiais hefyd ar y cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd cau'r bwlch rhwng budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai a chost wirioneddol rhentu, yn enwedig drwy'r Lwfans Tai Lleol.

Daeth y cyfarfod i ben gyda chadarnhad y byddai'r llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel swyddogion i gytuno ar bwy fyddai'n cadeirio cyfarfod nesaf yr IMG ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Bydd dyddiad addas ac eitemau agenda yn cael eu nodi maes o law.

Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd yn dilyn y cyfarfod, sydd ar gael yma.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government